# Cynllun Bro Aberaeron

Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU




DRAFT

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Bro Aberaeron
# Cynnwys


Rhagair

Prosiectau Allweddol

1. Cyflwyniad

1.1 Trosolwg
1.2 Ynghylch Aberaeron
1.3 Data Allweddol ar gyfer Aberaeron
1.4 Byd wedi'i Newid gan Covid-19

2. Cynllun Bro

2.1 Y Cyd-destun

2.1.1 Cysylltiadau â Chynlluniau Eraill
2.1.2 Cyswllt â Pholisi
2.1.3 Themâu Cynllun Bro Ceredigion
2.1.4 Deddfwriaeth Llesiant
2.1.5 Diben a Budd y Cynllun

2.2 Dull

2.2.1 Ffiniau'r Cynllun Bro
2.2.2 Gweithredu Cymunedol
2.2.3 Adborth y Gymuned
2.2.4 Ymatebion

3. Gweledigaeth

3.1 Gweledigaeth a Strategaeth
3.2 Pwyntiau Ffocws
3.3 Blaenoriaethau

4. Themâu ac Amcanion

4.1 Themâu sy'n Dod i'r Amlwg

4.2 Llesiant

4.2.1 Trosolwg
4.2.2 Iechyd a Llesiant
4.2.3 Chwaraeon
4.2.4 Hygyrchedd
4.2.5 Hamdden
4.2.6 Camau Gweithredu
4.2.7 Polisïau Llesiant a Chysylltiadau

4.3 Creu Lleoedd

4.3.1 Trosolwg
4.3.2 Mannau gwyrdd gan gynnwys Meysydd Pentref
4.3.3 Rheoli Traffig
4.3.4 Cyfleoedd datblygu
4.3.5 Gwelliannau i'r Stryd Fawr
4.3.6 Camau Gweithredu
4.3.7 Polisïau Creu Lleoedd a Chysylltiadau

4.4 Treftadaeth a Diwylliant

4.4.1 Trosolwg
4.4.2 Y Gymraeg
4.4.3 Treftadaeth Bensaernïol
4.4.4 Asedau Hanesyddol a Diwylliant
4.4.5 Cymdeithas Aberaeron
4.4.6 Camau Gweithredu
4.4.7 Polisïau Treftadaeth a Diwylliant a Chysylltiadau

4.5 Yr Economi

4.5.1 Trosolwg
4.5.2 Twristiaeth
4.5.3 Busnes Lleol
4.5.4 Camau Gweithredu
4.5.5 Polisïau'r Economi a Chysylltiadau

4.6 Yr Amgylchedd

4.6.1 Trosolwg
4.6.2 Amgylchedd Morol
4.6.3 Cynaliadwyedd
4.6.4 Camau Gweithredu
4.6.5 Polisïau'r Amgylchedd a Chysylltiadau


DRAFFT

# Cynllun Bro Aberaeron
# Rhagair

Rydym yn falch iawn o gyflwyno Cynllun Bro cyntaf Aberaeron. Yn un o'r trefi cynlluniedig cynharaf yng Nghymru, mae gan Aberaeron hanes o fod ar flaen y gad o ran cynllunio trefi. Yn 2016, Aberaeron oedd enillydd y gystadleuaeth Lleoedd Gorau Cymru, cystadleuaeth genedlaethol a drefnwyd gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru ac sy'n dathlu'r lleoedd sy'n cael eu gwarchod, eu cynllunio'n ofalus neu eu gwella gan y system gynllunio ar gyfer cymunedau.

Cynllun Bro gan bobl Aberaeron yw hwn. Mae wedi cael ei ddwyn ynghyd nid yn unig o ganlyniad i ymgynghoriad, ond hefyd trwy i breswylwyr, busnesau a sefydliadau'r dref gymryd rhan lawn yn y broses o'i lunio ac yn ei syniadau. Gobeithiwn yn fawr y bydd yn allweddol i helpu'r dref i dyfu a datblygu yn y modd y dymuna ei phreswylwyr iddi dyfu a datblygu.

Diolchwn i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i lunio, yn enwedig y Cynghorwyr o Gyngor Tref Aberaeron a arweiniodd y broses. Heb eu hymroddiad nhw, dim ond "syniad da" heb ei gyflawni fyddai'r cynllun wedi bod.

Deallwn fod ymgysylltiad ac ymwneud y gymuned yn allweddol i'n llwyddiant, ac felly byddwn yn croesawu eich sylwadau a'ch awgrymiadau wrth i ni symud ymlaen. Er mwyn sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn gadarnhaol ac yn effeithiol, bydd yr holl gamau gweithredu mewn perthynas â'r materion a'r themâu a nodwyd yn cael eu datblygu mewn partneriaeth ag eraill; gan gynnwys â Chyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion, a Llywodraeth Cymru.

O ran dyheadau a dymuniadau cymunedol, mae'n bwysig bod anghenion cymunedol yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso hyn â chyfyngiadau posibl, gan gynnwys: y ddaearyddiaeth leol, maint y boblogaeth ac amrywiadau ynddi, cyfyngiadau ariannol, cyfleoedd ar gyfer cyllid grant, a ffactorau eraill tebyg. Yn fwy na dim, edrychwn ymlaen at weld syniadau a dyheadau'r Cynllun Bro yn arwain y gwaith o ddatblygu Aberaeron am flynyddoedd i ddod.

O'r herwydd, mae'r ddogfen hon, er ei bod yn amlinellu datblygiadau posibl yn y dyfodol ar gyfer Aberaeron, yn ddogfen gyfnewidiol, a bydd yn parhau i gael ei diweddaru a'i haddasu'n rheolaidd.

Cyngor Tref Aberaeron



Harbwr Aberaeron

DRAFT



① **Neuadd y Sir a Heol y Farchnad**
Gwella ymddangosiad ac ymarferoldeb y gofodau a buddsoddi ynddynt.

② **Cae Sgwâr**
Gwella a diogelu'r amgylchedd.

③ **Yr Harbwr**
Gwarchod ei hunaniaeth, a sicrhau bod yr harbwr a'i hunaniaeth yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddigonol.

④ **Traeth y Gogledd**
Gwyrddu'r promenâd.

⑤ **Traeth y De**
Cynllun parhaus i amddiffyn rhag llifogydd; gwella'r mynediad iddo, gan gynnwys y cysylltiadau â llwybr yr arfordir a'r arwyddion.

⑥ **Y Neuadd Goffa**
Ei chefnogi a'i chynnal fel canolfan gymunedol.

⑦ **Swyddfeydd Penmorfa**
Ailddatblygu'r safle.




DRAFT

Harbwr Aberaeron

DRAFT

### 1.1 Trosolwg

Mae pob cymuned yng Nghymru wedi cael ei hannog i ddatblygu Cynllun Bro. Mae Cynlluniau Bro yn galluogi cymunedau i ymgysylltu'n greadigol â'r broses gynllunio i lunio dogfen dan arweiniad y gymuned sy'n darparu manylion ar gyfer yr ardal leol, ac sy'n adlewyrchu ei hynodrwydd ac yn mynd i'r afael â materion penodol i'r gymuned honno. Bellach, mae gan gymunedau Cymru fwy o gyfle nag erioed o'r blaen i lunio dyfodol y lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt.

Mae nifer o ddigwyddiadau ymgynghori wedi cael eu cynnal gyda phreswylwyr lleol, yn ogystal ag ymwelwyr, ac maent wedi cyfrannu at y cynllun a'i weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Datblygwyd y Cynllun Bro mewn partneriaeth ag ymgynghorwyr a swyddogion o'r awdurdod lleol.

Gall Cynlluniau Bro sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol gael eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol, a gallant gynorthwyo prosesau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â defnyddio a datblygu tir, a newidiadau a gwelliannau i wasanaethau lleol.

Gall y ddogfen gynorthwyo i gyflawni dyheadau lleol a gwella llesiant cymunedol. Mae Cynllun Bro Aberaeron wedi cael ei ddatblygu gan y Cyngor Tref ar y cyd â'r gymuned leol a Chyngor Sir Ceredigion.

### 1.2 Ynghylch Aberaeron

Mae Aberaeron yn dref yng ngorllewin Ceredigion sydd wedi'i lleoli ar gefnffordd arfordirol yr A487. Cynlluniwyd y dref ar ddechrau'r 19eg ganrif ac mae'n cynnwys adeiladau cain yn arddull cyfnod y Rhaglywiaeth sydd wedi'u lleoli o amgylch prif sgwâr a'r harbwr. Mae'r ardal hon bellach yn ffurfio ardal gadwraeth, ac mae ynddi lawer o siopau, busnesau, llety gwyliau ac anheddau sy'n cael eu diogelu gan statws Adeilad Rhestredig. Digwyddodd y datblygiad diweddarach y tu allan i'r ardal hanesyddol hon. Twristiaeth yw prif ddiwydiant y dref, ond mae hefyd yn gartref i wasanaethau cyhoeddus pwysig, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion a'r Ganolfan Iechyd Integredig newydd, sef dau sefydliad sy'n creu cyfleoedd cyflogaeth sylweddol.

Mae'r cyfleusterau cymunedol yn gwasanaethu nid yn unig dref Aberaeron ond hefyd yr ardal ehangach. Mae hyn yn cynnwys canolfan hamdden, pwll nofio, cartref preswyl ac uned tai gwarchod. Mae'r practis meddyg teulu yn cwmpasu ardal eang ac wedi'i ymgorffori yn y ganolfan iechyd integredig newydd, gyda'r orsaf ambiwlans y tu ôl iddi.

Mae ysgol gynradd, ysgol uwchradd, gan gynnwys 6ed dosbarth, uned atgyfeirio disgyblion, llyfrgell, ac uned niwrowahanol Canolfan y Môr wedi'u lleoli yn y dref, ac maent yn gwasanaethu'r dalgylch lleol a rhannau eraill o Geredigion. Mae Gwasanaeth Ieuenctid y Sir yn rhedeg clwb ieuenctid statudol, ac mae nifer o sefydliadau eraill yn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae gan Aberaeron dreftadaeth chwaraeon gref, ac mae yna sawl clwb sy'n darparu llu o gyfleoedd chwaraeon i'w cael yn y dref. Yn cyd-fynd â hyn y mae nifer o sefydliadau sy'n darparu cyfleoedd artistig a diwylliannol, ynghyd â'r Pwyllgor Gwella Tref sy'n buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf graddfa fach ond pwysig yn y dref. Felly, mae'r dref yn darparu ystod o wasanaethau i gymuned ehangach, gan gynnwys siopau, gwasanaethau iechyd, hamdden a dysgu, a chyfleusterau cymunedol.

### 1.3 Data Allweddol ar gyfer Aberaeron


Crybwyllir Aberaeron yn gryno yn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 mewn perthynas â'i hagosrwydd at Aberystwyth, tref fwyaf y rhanbarth: "Mae Aberaeron i'r de yn chwarae rôl debyg ac mae'n hwb gweinyddol a thwristiaeth pwysig."

Mae Aberaeron yn bwysig yn lleol fel Canolfan Gwasanaethau Trefol yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig Cyngor Sir Ceredigion. Mae ganddi amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth yn y sector preifat a chyhoeddus, gan gynnwys Swyddfeydd y Cyngor Sir a nifer o safleoedd manwerthu a masnachol bach sydd wedi'u crynhoi'n bennaf yng nghanol y dref a chanddynt ffryntiadau da ac arlwy manwerthu cryf. Mae'r dref wedi ei datblygu ei hun i fod yn 'ganolfan bwydydd' dros y blynyddoedd diwethaf ac mae ganddi amrywiaeth o fwytai uchel eu parch. Mae gwybodaeth bellach ac ystadegau allweddol yn cynnwys y canlynol:

Allwedd:

- Cymuned Aberaeron
- Wardiau cymunedol cyfagos yng Ngheredigion
- Prif ffordd

(Ffiniau wardiau 2022)



Yn ôl cyfrifiad 2021, mae gan Aberaeron boblogaeth o tua 1,300 o gymharu â 1,422 yng nghyfrifiad 2011.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 yn rancio pob ardal fach yng Nghymru o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig). A hithau yn safle 1,257, mae Aberaeron yn un o'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig – y 34ain ardal leiaf difreintiedig o blith 46 o ardaloedd yn Awdurdod Lleol Ceredigion.

Ward Tref Aberaeron a gofnododd un o'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021 (65%), megis yn 2011 (59.9%) – cynnydd o 6.1% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg.

### 1.4 Byd Wedi'i Newid gan Covid-19

Mae COVID-19 nid yn unig wedi amharu ar ein bywydau bob dydd ac achosi llawer o ansicrwydd, ond mae hefyd wedi rhoi cyfle i ni ailosod y cloc a meddwl eto am y lleoedd yr ydym am fyw, gweithio a chwarae ynddynt. Mae angen i ni ailadeiladu cymdeithas wyrddach, lanach lle mae datgarboneiddio a chyfiawnder cymdeithasol yn ganolog iddi, gan barchu ein hamgylchedd a rhoi lleoedd da i bobl fyw ynddynt, lleoedd sy'n hygyrch ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yr un mor wir am Aberteifi ag y mae ar gyfer Cymru gyfan.

Mae'r pandemig wedi newid patrymau gwaith. A hithau'n ganolfan weinyddol, mae gweithio hybrid yn effeithio ar y ffordd y mae'r dref yn gweithredu, ac mae'r Cyngor Tref yn cydnabod symudiadau dyddiol yn nifer yr ymwelwyr â busnesau lleol. Os bydd mwy o unedau pwrpasol, megis Penmorfa a Neuadd y Sir, yn parhau i gael eu tanddefnyddio gan yr Awdurdod Lleol, yna dylid ystyried eu hailddefnyddio yng nghyd-destun lleol Aberaeron. Mae yma gyfle i ymgysylltu â phreswylwyr a busnesau lleol i gynllunio a sicrhau dyfodol y safleoedd hyn mewn modd sydd o fudd i'r dref. Mae awgrymiadau cynnar yn cynnwys hybiau gwaith i weithwyr cartref y sector preifat a chyhoeddus allu defnyddio cyfleusterau argraffu, ystafelloedd cyfarfod, cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd, mannau arddangos parhaol ar gyfer Cymdeithas Aberaeron, cyfleusterau cynadledda, gwestai a lleoliadau priodasau, neu hybiau cymunedol. Mae'n bosibl bod dull cyfannol trwy bartneriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ofynnol i nodi'r cyfleoedd hyn a chysoni'r blaenoriaethau.

Mae ein dibyniaeth ar gyfathrebu digidol yn parhau i dyfu, a disgwylir i'r tueddiadau hyn barhau. Mae asesiad y Cyngor Tref ei hun yn amlygu pwysigrwydd band eang cyflym a dibynadwy, ynghyd â gwasanaethau symudol i fusnesau, cymunedau ac unigolion, fel ei gilydd. Bydd gwella'r cysylltedd digidol yng Ngheredigion yn hanfodol i ddarparu'r seilwaith gofynnol ar gyfer y dyfodol.

Mae'r data ar y dudalen ganlynol yn seiliedig yn bennaf ar yr Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA).

Allwedd:

- Aberaeron (LSOA 2021)
- Prif ffordd





DRAFT

DRAFT


Poblogaeth

Cymru | Ceredigion | Aberaeron





% Poblogaeth a Ddynododd Cymraeg yn Unig


Cymru | Ceredigion | Aberaeron





% Grwpiau Oedran Poblogaeth yn Aberaeron





Deiliadaeth Aelwydydd yn Aberaeron





Y Gymraeg yn Aberaeron





% Dadansoddiad o'r Galwedigaethau yn Aberaeron





Ceir/Faniau fesul Aelwyd yn Aberaeron




% Gweithgarwch Economaidd yn Aberaeron




Ethnigrwydd yn Aberaeron




Ffynhonnell y data: NOMIS, Cymru, 2021

### 2.1 Y Cyd-destun

Mae Cynlluniau Bro yn ategu cynlluniau datblygu statudol sydd mewn bod ac yn mynd i'r afael â materion ar raddfa gymunedol, megis cynllunio cyfleusterau cymunedol a mannau agored. Maent yn gweithredu fel mecanwaith i gymunedau ymgysylltu mewn modd creadigol â'r broses gynllunio.

#### 2.1.1 Cysylltiadau â Chynlluniau Eraill


Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi cynllun ar gyfer eu hardal a elwir yn Gynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae hwn yn nodi amcanion yr awdurdod mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yn ei ardal, ynghyd â'i bolisïau cyffredinol ar gyfer gweithredu'r amcanion hynny.

Ym mis Ebrill 2013, mabwysiadodd Cyngor Sir Ceredigion Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion yn ffurfiol. O ganlyniad, rhaid i ddatblygiad arfaethedig gael ei ystyried yn unol â'r polisïau a geir yn y cynllun hwn. Yn dilyn hynny, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Cynlluniau Bro, sy'n ychwanegu manylion at y broses o gynllunio datblygu statudol, ac yn ymhelaethu ymhellach ar y cynnwys. Er bod Cynlluniau Bro yn ddogfennau anstatudol a all ddarparu cymorth i gyflawni'r gwaith, cânt eu paratoi i'r diben o ddod yn Ganllawiau Cynllunio Atodol (SPG) yn y dyfodol.

Mae'r canllawiau hyn a arweinir gan y gymuned yn helpu i gyflawni dyheadau lleol a gwella llesiant cymunedol.Caiff Cynlluniau Bro eu llywio gan bolisi, ond maent hefyd yn cynnig cyfle i lywio a llunio strategaethau lleol a chenedlaethol tymor hwy.

Mae i'r cynllun hwn gyswllt â dogfennau strategol y Cyngor Sir, gan gynnwys:

- Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion.
- Ceredigion i Bawb (Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol).
- Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion.
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT).
- Cynllun Llesiant Ceredigion.
- Seilwaith Gwyrdd a Glas Aberaeron.
- Strategaeth Adfywio Aberaeron.
- Cynllun Arfarnu a Rheoli Ardal Gadwraeth Aberaeron.




Cyd-destun y Cynllun Bro o fewn polisi, deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio

### 2.1.2 Cyswllt â Pholisi

Mae pob prosiect a amlinellir yn y Cynllun Bro yn bodloni'r ddyletswydd a bennir dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef cyflawni'r 'Egwyddor Datblygu Cynaliadwy' trwy'r pum ffordd o weithio: Cydweithredu, Integreiddio, Cymryd rhan, Meddwl yn yr hirdymor ac Atal.

Mae pum egwyddor allweddol 'Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11' wedi cael eu hystyried yn rhan o'r broses ar gyfer llunio prosiectau Cynllun Bro. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tyfu ein heconomi mewn modd cynaliadwy.
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.
- Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach.
- Creu a chynnal cymunedau.
- Hyrwyddo gwarchodaeth amgylcheddol a chyfyngu ar effaith amgylcheddol.

Cyswllt â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI):

- DM19: Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol (yn gwarchod adeiladau o bwysigrwydd diwylliannol a hanesyddol).
- Polisi DM07: Ardaloedd Cadwraeth.
- Polisi DM03: Teithio Cynaliadwy.
- Polisïau LU18 ac 19 Cynigion Manwerthu Ledled y Sir ac mewn Canolfannau.
- Gwasanaethau Trefol, ac LU21 Newid defnydd o Ddefnydd Manwerthu Presennol.
- Polisi LU22: Darpariaeth Gymunedol.
- Polisi DM09: Dylunio a Symud.
- Polisi DM10: Dylunio a Thirweddu.

### 2.1.3 Themâu Cynllun Bro

Mae yna bum thema Cynllun Bro graidd sy'n darparu strwythur ac yn ei gwneud yn bosibl i brosiectau a chamau gweithredu fod yn gyson â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Tra bo cynnwys y Cynllun Bro hwn a'r set o is-themâu yn unigryw i Aberaeron, mae'r categorïau'n gyffredin ledled pob tref yng Ngheredigion. Mae pob un o'r themâu'n cael eu llywio gan ddeddfwriaeth, polisi, a dyheadau cymunedol. Mae'r disgrifyddion cefndir canlynol yn darparu fframwaith ar gyfer strwythuro'r Cynllun Bro:

**Llesiant:**

Meddwl am effaith hirdymor penderfyniadau, a darparu cymorth i'r gymuned leol atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Nod y camau gweithredu hyn yw lleihau'r gwahaniaethau o fewn cymunedau a chreu amodau sy'n galluogi pobl i fyw a gweithio mewn lleoedd diogel, bywiog. Mae'r thema'n cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac egwyddorion datblygu cynaliadwy.

**Creu Lleoedd:**

Mabwysiadu agwedd gyfannol at gynllunio a dylunio gofodau. Mae creu lleoedd yn tynnu ar botensial ardal i greu datblygiad o ansawdd uchel a mannau cyhoeddus sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl. Dylai hyn arwain at ddatblygu gofodau nodedig a bywiog sy'n cryfhau'r berthynas rhwng pobl a lleoedd. Mae'r thema'n ymateb i Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 ac mae'n ymgorffori gwerthoedd Siarter Creu Lleoedd Cymru.

**Treftadaeth a Diwylliant:**

Diogelu'r dreftadaeth ranbarthol unigryw a'r asedau diwylliannol cyfoethog sy'n bresennol yn y dref. Nod y camau hyn yw datblygu'r cymeriad hanesyddol sy'n denu pobl i ymweld â'r ardal ac i fyw ynddi. Mae'r thema'n cymhwyso egwyddorion cadwraeth ac yn helpu i feithrin dealltwriaeth o werth treftadaeth llawer o nodweddion hanesyddol lleol – rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol Ceredigion. Mae'r thema'n cyd-fynd â'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth.

**Yr Economi:**

Datblygu rhaglen buddsoddiad mewn adfywio dargededig sy'n cynnal economi ffyniannus gynaliadwy. Mae hyn yn mynd i'r afael â heriau allweddol i gyflawni gweledigaeth o economi sy'n darparu dyfodol cynaliadwy ar gyfer pawb sy'n dewis byw a gweithio yn y gymuned leol. Mae'r thema'n gysylltiedig â pholisi a chymorth adfywio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i wella canol trefi. Mae'r agwedd hon ar y Cynllun Bro yn cael ei llywio gan Strategaeth Adfywio Aberaeron (2023), ynghyd â chonsensws cyffredinol ynghylch prosiectau ac ymyraethau allweddol sydd wedi llywio cymeradwyaeth y Cyngor Tref.

**Yr Amgylchedd:**

Creu cymunedau gwyrddach, cynaliadwy ac iddynt gysylltiadau da, sy'n cymryd camau i leihau allyriadau carbon a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r amgylchedd lleol a rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae'r thema'n hyrwyddo amcanion sirol a chenedlaethol, yn ogystal â thargedau allyriadau carbon i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Caiff y thema ei llywio gan y cynllun seilwaith Gwyrdd a Glas ar gyfer y dref a chyfleoedd allweddol yr hoffai'r Cyngor Tref eu symud yn eu blaen a'u blaenoriaethu.

DRAFT

DRAFT

# Themâu Cyffredin Ceredigion

## Llesiant

- Hygyrchedd
- Teithio llesol
- Cymuned
- Llwybrau beicio
- Gofal iechyd
- Iechyd a llesiant
- Hamdden
- Cyfleusterau cyhoeddus
- Hamdden
- Chwaraeon
- Twristiaeth
- Trafnidiaeth
- Llwybrau cerdded

## Creu Lleoedd

- Llety
- Amgylchedd adeiledig
- Gerddi cymunedol
- Darpariaeth gymunedol
- Cyfleoedd datblygu
- Mannau gwyrdd
- Gwelliannau i'r stryd fawr
- Gwell ffryntiadau
- Parcio
- Cerddwyr
- Hyrwyddo a rheoli
- Arwyddion
- Cymeriad y dref
- Sgwâr y dref

## Treftadaeth a Diwylliant

- Cymeriad pensaernïol
- Treftadaeth bensaernïol
- Cadwraeth
- Diwylliant
- Treftadaeth
- Cyd-destun hanesyddol
- Diwylliant hanesyddol
- Y Gymraeg

## Yr Economi

- Atyniadau
- Cyrchfan
- Yr economi
- Addysg
- Tirnodau
- Busnesau lleol
- Marchnata
- Hyrwyddo
- Twristiaeth

## Yr Amgylchedd

- Mynediad
- Newid yn yr hinsawdd
- Llifogydd
- Seilwaith gwyrdd
- Tirwedd
- Yr amgylchedd morol
- Yr amgylchedd naturiol
- Cynaliadwyedd
- Teithio cynaliadwy

Themâu cyffredin ledled Cynlluniau Bro Ceredigion

DRAFT

### 2.1.4 Deddfwriaeth Llesiant

Cymru oedd y wlad gyntaf i ddeddfu Llesiant yn y gyfraith ac mae'r ddeddfwriaeth hon yn treiddio i lawr i bob prosiect a chynllun yng Nghymru. Mae'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fel y'u hamlinellir ar lefel leol yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023, wedi llywio datblygiad y Cynllun Bro hwn.

Mae'r Cynllun Bro wedi'i strwythuro i ymgorffori'r pedwar amcan sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2023-28. I'r perwyl hwn, mae'r Cynllun Bro yn adlewyrchu'r modd y bydd y Cyngor Tref yn cymryd "pob cam rhesymol" tuag at fodloni'r pedwar amcan a'r amcan trawsbynciol yn y Cynllun Llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Cyngor Tref i barhau i gefnogi nifer o'r gwasanaethau dinesig sy'n sail i dwristiaeth a'r economi leol, e.e. glanhau'r strydoedd, cynnal a chadw'r tiroedd, darparu planhigion a blodau.
- Y Cyngor Tref i barhau i gefnogi gwell cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a hamdden yn yr awyr agored, e.e. cerdded, chwarae, chwaraeon a mannau cymunedol.
- Y Cyngor Tref i barhau i gefnogi a dathlu diwylliant dwyieithog y dref, ynghyd â darparu cyfleoedd i bobl ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg.
- Y Cyngor Tref i barhau i gefnogi mesurau i ddarparu amgylchedd diogel a chroesawgar yn y gymuned.
- Y Cyngor Tref i barhau i gefnogi mesurau i warchod ac ehangu bioamrywiaeth yn yr ardal, gan hefyd ymgymryd â'r mesurau hynny.
- Y Cyngor Tref i barhau i helpu i atgyfnerthu balchder bro a dinasyddiaeth leol trwy gyfleoedd i wirfoddoli a chymryd rhan mewn gweithgareddau, a thrwy gefnogi ystod o fentrau cymunedol.

Mae amcanion Cynllun Bro y Cyngor Tref yn llywio ei Gynllun Busnes, a hefyd yn cynnwys mecanweithiau ar gyfer monitro cynnydd yr amcanion ac i'w hadolygu.

### 2.1.5 Diben a Budd y Cynllun


Mae Cynlluniau Bro yn rhoi mwy o lais i gymunedau mewn penderfyniadau cynllunio lleol a datblygiad yn eu hardal leol. I lunio Cynllun Bro Aberaeron, bu'r Cyngor Tref yn gweithio gyda'r gymuned i gasglu barn a thystiolaeth ar sawl pwnc a awgrymwyd gan y gymuned. Yn gyffredinol, gall Cynlluniau Bro gynorthwyo i gyflawni dyheadau lleol a gwella llesiant cymunedol trwy nodi uchelgeisiau'r gymuned leol a denu cyllid i'w gwireddu. Bwriedir i Gynllun Bro Aberaeron:

- Ddylanwadu ar benderfyniadau cynllunio yn y dref yn y dyfodol.
- Nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi.
- Creu corff o dystiolaeth y gellir ei defnyddio i ddenu buddsoddiad i'r dref.
- Cyfarwyddo gwaith sefydliadau'r dref yn y dyfodol, gan gynnwys y Cyngor Tref.

Bydd Cynllun Bro Drafft y Cyngor Tref yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Tref Aberaeron i Awdurdod Cynllunio Lleol Ceredigion ar gyfer ei fabwysiadu yn Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhoi manylion ac enghreifftiau o'r modd y gellir cyflawni nodau'r CDLl yn ymarferol yn lleol, a bydd yn rhoi dealltwriaeth fanylach o dref Aberaeron i'r Cyngor Sir, dealltwriaeth a fydd yn sail i'w benderfyniadau cynllunio.

Mae'r Cynllun Bro yn wahanol i gynllun busnes y Cyngor Tref ei hun mewn dwy ffordd allweddol:

- Mae'n canolbwyntio ar ddefnydd tir ac mae'n fwriad gan yr Awdurdod Cynllunio ei fabwysiadu yn Ganllawiau Cynllunio Atodol.
- Mae'n amlygu materion ac atebion na all y Cyngor Tref fynd i'r afael â nhw ar ei ben ei hun; bydd gwaith partneriaeth yn ofynnol i'w cyflawni.






Y saith nod llesiant a nodir gan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'

DRAFT

Allwedd:

- Afon Aeron
- 1890au
- 1890au
- 1890au
- 2023
- Ffin yr anheddiad





1890au — 1930au — 1980au — 2023

Twf anheddiad Aberaeron

DRAFT

**2.2 Dull**

Paratowyd y Cynllun dan arweiniad swyddogion Cyngor Sir Ceredigion ac ymgynghorwyr a benodwyd ganddynt. Darparodd hyn fframwaith ar gyfer y Cynllun.

Ymgysylltwyd â'r cyhoedd trwy gyfrwng digwyddiadau ymgynghori, ac mae preswylwyr lleol yn ogystal ag ymwelwyr wedi cyfrannu at y Cynllun a'i weledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Lluniwyd cynllun drafft gan y Clerc ac Uwch-aelodau'r Cyngor, ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor Tref yn 2019.

Golygodd cyfyngiadau symud Covid-19 fod y Cynllun wedi cael ei ohirio am sawl blwyddyn. Yna cafodd y Cynllun ei ddiweddaru a'i ddiwygio yn unol â'r newid yn amgylchiadau a datblygiadau'r dref.

**2.2.1 Ffiniau'r Cynllun Bro**

Mae'r cymunedau o amgylch Aberaeron, cymunedau y mae'r dref, ar y cyfan, yn Ganolfan Gwasanaethau Trefol iddynt, yn gallu cwmpasu radiws o saith milltir. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y dref yn cynnwys meddygon teulu a chlinigau amrywiol yn y Ganolfan Gofal Integredig, addysg gynradd a chyfun, cyflogaeth, clybiau ieuenctid, hamdden (gweithgareddau clybiau), gwasanaethau llyfrgell, mannau chwarae, a siopau a lletygarwch. Tra bo ffin gyfagos Ffos-y-ffin, Henfynyw ac Aber-arth yn fwy dibynnol ar Aberaeron am y gwasanaethau hyn, ers datblygu'r Cynllun Bro hwn mae archfarchnad fechan a thafarn newydd wedi agor bellach yn Ffos-y-ffin.

Mae Cyngor Tref Aberaeron yn cydnabod ac yn parchu annibyniaeth y cymunedau cyfagos a wasanaethir gan eu cynghorau cymuned eu hunain. Felly, roedd paratoi Cynllun Bro Aberaeron yn canolbwyntio ar y preswylwyr, y clybiau a'r busnesau o fewn ffin y dref.



Sesiwn ymgysylltu ar gyfer Strategaeth Adfywio Aberaeron, Ionawr 2023

### 2.2.2 Gweithredu Cymunedol

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor Tref yn gweithio i gylch cynllunio busnes tair blynedd o hyd sy'n rhoi cyfeiriad ac arweiniad ar gyfer datblygiadau a gwelliannau yn y dref. Cefnogir hyn gan gyfres o gynlluniau blynyddol i helpu o ran eglurder a chamau gweithredu fel y gellir sicrhau bod preswylwyr yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn ymwybodol o'r datblygiadau a'r gwelliannau.

### 2.2.3 Adborth y Gymuned

Mae nifer o ddigwyddiadau ymgynghori wedi eu cynnal, ac mae preswylwyr lleol, yn ogystal ag ymwelwyr, wedi cyfrannu at y cynllun a'i weledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- Stondin cwrdd a chyfarch yn nigwyddiad Nadolig cymunedol 2019, pan wahoddwyd pobl i ateb cwestiynau mewn holiadur.
- Dwy sesiwn galw heibio ar gyfer unigolion, pobl fusnes a chynrychiolwyr sefydliadau lleol, a oedd yn cynnwys trafodaeth bord gron.

Mae'r safbwyntiau amlycaf yn yr adborth, ac yr eir i'r afael â nhw yn y Cynllun, yn cynnwys y canlynol:

- Gwneud y dref yn lle deniadol i fyw ynddo.
- Cynnal canol y dref fel canolfan siopa fywiog.
- Gwella'r ddarpariaeth parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd/y ddarpariaeth i'r anabl/y rheolaeth ar draffig.
- Hyrwyddo canol tref rhydd o annibendod, gan sicrhau mynediad hawdd i gerddwyr.
- Parchu dyluniad datblygiad yng nghyd-destun amgylchedd Adeiladau Rhestredig.
- Diogelu tirnodau'r dref, gan gynnwys Neuadd y Sir, a gwarchod enwau hanesyddol anheddau yn y ddwy iaith.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
- Gwella'r amgylchedd naturiol a hyrwyddo'r broses o fabwysiadu polisïau ecogyfeillgar, gan gynnwys cynhyrchion Masnach Deg.
- Darparu cyfleusterau hamdden a chefnogi chwaraeon.

### 2.2.4 Ymatebion

Mae rhai o'r sylwadau a'r adborth o'r ymgynghoriad cymunedol yn cynnwys y canlynol:

Mae ymrwymiad a brwdfrydedd cyffredinol y bobl leol a'r Cyngor Tref, ynghyd â phwyllgorau cysylltiedig, yn dangos ein bod yn malio.

Agweddau da ar Aberaeron yw'r harbwr, y parciau, y tai – maen nhw'n llawn digwyddiadau a gweithgareddau.

Mae canol y dref yn wastad ac mae swyddfa'r post a'r siopau yn hygyrch. Parcio yw'r unig broblem.

Does unman gwell! Yr harbwr a'r sgwâr yw'r em yn y goron. Dylent gael eu cadw, nid eu gorddatblygu a'u difetha.

Lle mor hyfryd i fyw ynddo ac i blant gael eu magu ynddo. Mae Aberaeron yn dref hanesyddol ddeniadol a bob amser yn lân.

Mae yna ddigwyddiadau blynyddol gwych yma. Mae angen i ni adeiladu ar yr hyn sydd gennym, gan sylweddoli ar yr un pryd beth yw'r cyfyngiadau daearyddol.

Mae'n bwysig peidio â gadael i'r dref golli ei hunaniaeth mewn unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol.

Mae Aberaeron yn lleoliad gwych – môr a hwylio, mannau gwyrdd, bwytai o safon uchel, lleoedd i gerdded!


Ysbryd cymunedol da a chroesawgar iawn.

DRAFT



Cysylltiad arfordirol

DRAFT


Creu Lleoedd
Busnes a Chyflogaeth
Cyrchfan Canol Tref
Iechyd a llesiant
Cyfleoedd datblygu
Gwelliannau i Heol y Farchnad
Teithio Cynaliadwy a’r Amgylchedd
Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig
Twristiaeth
Diwylliant, Treftadaeth, a’r Iaith Gymraeg
Newid yn yr Hinsawdd

DRAFFT

### 3.1 Gweledigaeth a Strategaeth

Y weledigaeth yw y bydd Aberaeron:

- Yn lle bywiog i fyw ynddo.
- Yn lle ar gyfer twf busnes a gwell cyfleoedd cyflogaeth.
- Yn cadw a gwella gwasanaethau er budd y dref a'r gymuned ehangach.
- Yn cynnal a hyrwyddo ei threftadaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg.
- Yn parhau i ddatblygu'r dref yn brif gyrchfan i dwristiaid.
- Yn cadw ymdeimlad o falchder bro.

Bwriad y Cyngor Tref yw datblygu ei gynllun busnes blynyddol ymhellach trwy sicrhau amlinelliad ar gyfer cyflawni prosiectau byrdymor, tymor canolig a hirdymor, yn barod ar gyfer unrhyw grantiau a ddaw ar gael. Mae gan lawer o grantiau ffenestr fach ar gyfer ymgeisio, ac felly bydd yn bwysig casglu cymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys data ategol, i gynllunio cyllideb y Cyngor yn unol â hynny. Mae'n werth nodi bod gan Gyngor Tref Aberaeron boblogaeth fechan ar gyfer tref sy'n cynnig cymaint, a bod ganddi'r ail braesept uchaf yn y sir o ran y Dreth Gyngor. Rydym felly'n ddibynnol iawn ar Gyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru i gyflawni prosiectau'n rhan o'u strategaeth adfywio canol trefi a datblygu economaidd, megis prosiect ailgynllunio Heol y Farchnad ar ôl Covid.

### 3.2 Pwyntiau Ffocws

Mae gan Aberaeron bwyntiau ffocws, tirnodau ac atyniadau allweddol sy'n ei gwneud yn unigryw. Mae'n bwysig cynnal y rhai mewn bod, ond, ar yr un pryd, eu gwella a'u datblygu lle bynnag y bo modd a datblygu rhai newydd. Mae pwyntiau ffocws Aberaeron yn cynnwys y canlynol:

1. Y Prif Harbwr a Phwll Cam

   Gan fod y ddau hyn yn cael eu hystyried gan lawer yn ganolbwynt allweddol y dref, mae'n hanfodol bod yr harbwr a'i adeiladweithiau'n cael eu cynnal a'u gwella fel bod traddodiad yr harbwr o fod yn lle ar gyfer gweithgareddau hwylio a physgota, yn ogystal â chanolbwynt i dwristiaid, yn parhau a datblygu. Dechreuodd gwaith mawr i amddiffyn yr harbwr yn 2024, gwaith sy'n cynnwys morglawdd newydd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd ar hyd Pen Cei a Phwll Cam. Mae peth gwaith eisoes wedi cael ei wneud i wella'r ardaloedd sy'n union gerllaw'r harbwr ym Mhwll Cam, ond mae rhagor o waith yn ofynnol i wella cyfleusterau ardal Traeth y De a'r ardal ger yr hen Ganolfan Groeso.

2. Cae Sgwâr

   Dyma un o'r safleoedd hamdden a ddefnyddir fwyaf yn y dref, ac felly mae ei gadw yn hanfodol i gynaliadwyedd Aberaeron. Mae'r cae bellach yn cael ei gynnal a'i gadw gan y Cyngor Tref, ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i'w gadw'n ofod deniadol. Fe'i dynodwyd yn Gae Canmlwyddiant Ceredigion yn 2018, a hynny gyda'r nod o wella ei safle fel ardal hamdden a chyfleuster cymunedol.

3. Neuadd y Sir

   Mae hwn yn adeilad hanesyddol ac yn dirnod allweddol yng nghanol y dref. Yn fwyaf diweddar mae wedi bod yn gartref i ganolfan groeso, llyfrgell, Cymdeithas Aberaeron a gwasanaethau eraill, gan gynnwys desg gymorth y cyngor. Mae'n ganolbwynt allweddol i'r dref a'r ardal gyfagos. Dylai'r defnydd ohono yn y dyfodol archwilio sut y gall yr adeilad barhau i fod â ffocws cymunedol a chael ei ddatblygu'n ganolbwynt ac iddo amwynderau lleol ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr.

4. Y Promenâd

   O wneud y promenâd yn wyrdd ac yn lle mwy deniadol i gerdded ar hyd-ddo, gallai hyn wella'r llwybrau cyfredol a meithrin ymwybyddiaeth o Lwybr yr Arfordir a chysylltiadau iddo. Mae'r cynllun Seilwaith Gwyrdd a Glas lleol yn amlygu cyfle i wella bioamrywiaeth arfordirol Aberaeron trwy gyflwyno planhigion arfordirol a mannau ar gyfer natur yn rhan o'r cynllun i amddiffyn glan y môr rhag llifogydd. Gallai hyn ysgogi tir y cyhoedd ar lan y môr trwy gyflwyno mannau i gymdeithasu, chwarae, archwilio, dysgu, cerdded a beicio ynddynt.






1. Cyffordd Ffordd y Gaer
2. Golygfa o Erddi Belle Vue

DRAFT

### 3.3 Blaenoriaethu

Er mwyn strwythuro'r Cynlluniau Bro, datblygwyd nifer o themâu allweddol yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol, ac roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Lle gwych i fyw a gweithio ynddo;
- Aberaeron Wyrddach;
- Cyrchfan Aberaeron.

Bydd i bob prosiect themâu allweddol yn rhedeg trwyddo, sef:

#### 1. Iechyd a llesiant ein preswylwyr

Ymdeimlad o le neu berchnogaeth 'gymunedol'. Mae'r dreftadaeth forwrol yn bwysig i'r dref a'r gymuned gyfagos. Felly hefyd amgylchedd adeiledig y dref gynlluniedig. Mae'n bwysig bod preswylwyr o bob cefndir economaidd-gymdeithasol yn cymryd rhan yn eu cymuned. Bydd datblygu canolfan gymunedol yng nghanol y dref, ynghyd â gwneud gwelliannau i'r amgylchedd adeiledig a'r gofodau amwynderau, yn darparu lle i gwrdd, ymgysylltu a sgwrsio ag eraill i'r preswylwyr hynny a allai fod yn teimlo'n ynysig gartref.

#### 2. Y Gymraeg

Mae'n bwysig bod preswylwyr yn cael y cyfle i gwrdd a sgwrsio yn Gymraeg, ac mae hefyd yn bwysig annog siaradwyr Cymraeg newydd. At hynny, mae'n bwysig bod busnesau'n cael eu hannog i fynd ati'n frwd i hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan o dref fywiog Gymraeg ei hiaith.

#### 3. Y Celfyddydau a Diwylliant

Mae ar Aberaeron angen amgueddfa a chanolfan i'r celfyddydau i arddangos gwaith y nifer mawr o artistiaid a chrefftwyr sydd yn Aberaeron a'r cyffiniau, lawer ohonynt yn arddangos ledled Cymru, Lloegr a thu hwnt.

#### 4. Mannau Gwyrdd a Theithio Llesol

Mae datblygu'r mannau gwyrdd y mae Aberaeron yn eu cynnig yn bwysig i breswylwyr ac ymwelwyr fel y gallant eu mwynhau. Mae Aberaeron yn cydnabod bod ei phoblogaeth isel yn cwympo y tu allan i feini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid teithio llesol, ac eto mae yna gyfleoedd eraill y gellid eu datblygu. Bydd creu llwybrau cylchol yn y dref yn cysylltu llwybr yr arfordir, llwybrau'r harbwr, y coetir, a glan yr afon i'r dwyrain o'r dref a thu hwnt. Bydd y llwybrau'n estyn i lwybr beicio a cherdded Llannerch Aeron, lle bo posibilrwydd iddo fynd yn ei flaen hyd at Lanbedr Pont Steffan. Byddai gwyrddu a meddalu'r promenâd yn golygu bod yna lawer o botensial i'w gysylltu â thaith gerdded estynedig amddiffynfa newydd yr harbwr, a hynny allan i'r môr i bob pwrpas, ar hyd y wal gynnal garreg newydd.

#### 5. Hyrwyddo Busnesau Lleol

Mae'r dref harbwr adnabyddus am ei thai lliwgar a'i siopau uchel eu safon wedi gweld effaith ar ei heconomi yn sgil y pandemig. Mae colli staff y Cyngor Sir o'i swyddfeydd, yn enwedig o ddau leoliad allweddol, wedi effeithio ar y fasnach amser cinio a siopa cyfleus. Mae llai o leoedd parcio ar Heol y Farchnad wedi effeithio ar siopwyr lleol hefyd. Wrth i arferion defnyddwyr newid, bydd angen i Aberaeron addasu trwy ganolbwyntio mwy ar ei rôl o fod yn gyrchfan ac iddi gynnig manwerthu a lletygarwch unigryw. Er gwaethaf rhenti uchel, mae ei chyfradd deiliadaeth gref a'i busnesau sy'n cael eu rhedeg yn lleol yn golygu ei bod mewn lle da ar gyfer y dyfodol.

#### 6. Gwelliannau i'r Amgylchedd

Mae Aberaeron yn rhan o ACA Forol Bae Ceredigion. Mae'n lle hardd, ac mae yna gyfle i ddatblygu'r ardal werdd wyllt i'r de o'r bont bren yn ardal yr harbwr i ffurfio gwarchodfa adar môr. Mae'r ardal fechan hon eisoes yn gyforiog o bryfed a chynefinoedd amrywiol, a nodwyd gan swyddog ecoleg Ceredigion. Gyda byrddau arddangos a llwybrau dymunol, byddai'n ardal i eistedd ynddi a'i mwynhau, ac yn lle i blant ysgol ymgymryd â phrosiectau am eu hamgylchedd naturiol. Mae strategaeth blannu'r cyngor eisoes yn cynnwys planhigion gwyllt, neu berlysiau sy'n denu gwenyn a thrychfilod ac sy'n gofyn am gael eu dyfrio'n ysbeidiol yn unig. Mae'r Cyngor Tref yn datblygu cynllun bioamrywiaeth a fydd yn cyd-fynd â holl brosiectau'r dyfodol.

DRAFT




Gwesty'r Harbwr a Phen Cei gerllaw'r harbwr

DRAFT

# Themâu ar gyfer Aberaeron

## Llesiant

Hygyrchedd
Cymuned
Iechyd a llesiant
Hamdden
Chwaraeon

## Creu Lleoedd

Darpariaeth gymunedol
Cyfleoedd datblygu
Mannau gwyrdd
Gwelliannau i'r stryd fawr

## Treftdaeth a Diwylliant

Treftadaeth bensaernïol
Diwylliant hanesyddol
Y Gymraeg

## Yr Economi

Busnesau lleol
Twristiaeth

## Yr Amgylchedd

Yr amgylchedd morol
Cynaliadwyedd
Flooding
Seilwaith gwyrdd

DRAFFT

Pynciau sy'n dod i'r amlwg o dan eu themâu priodol yng Nghynllun Bro Aberaeron

**4.1 Themâu sy'n Dod i'r Amlwg**

Mae'r gymuned wedi blaenoriaethu set o is-themâu sy'n cyd-fynd â fframwaith y Cynllun Bro a amlinellir yn Adran 2. Mae'r pynciau yn y Cynllun Bro yn rhyng-gysylltiedig ac mae eu cynnwys yn croesgyfeirio. Un o'r prif ddibenion yw ychwanegu haen ychwanegol o wybodaeth leol at bob thema. Mae hyn wedi arwain at yr amcanion canlynol yn dod i'r amlwg:

Llesiant:

Canolbwyntio ar gynnal a gwella cyfleusterau i hyrwyddo ffyrdd egnïol o fyw i breswylwyr ac ymwelwyr. Mae'r nodau allweddol yn cynnwys gwella'r seilwaith chwaraeon a chefnogi'r cyfleusterau hamdden. Anogir teithio llesol i hybu iechyd, ac mae yna gynlluniau i estyn y llwybrau troed a chreu llwybrau arfordirol hygyrch. Mae cadw ardaloedd allweddol megis Cae Sgwâr a'r pwll nofio yn hanfodol.

Mae'r dref yn rhoi gwerth ar fannau gwyrdd ac mae'n bwriadu creu llwybrau cylchol a fydd yn cysylltu'r llwybrau arfordirol, yr harbwr a'r coetir â llwybrau beicio cyfagos.

Creu Lleoedd:

Mae'r dref yn chwilio am atebion creadigol i oresgyn cyfyngiadau o ran tir ac i wella'r seilwaith cyhoeddus, sy'n cynnwys ailddatblygu rhannau o adeiladau gwag cyfredol a darparu tai fforddiadwy o fewn yr amgylchedd adeiledig presennol. Mae dull cydgysylltiedig, sy'n cynnwys y sectorau cyhoeddus a phreifat, yn hanfodol i gysoni datblygiad ag anghenion y gymuned.

Treftadaeth a Diwylliant:

Mae yna ymrwymiad cryf i warchod hunaniaeth ddiwylliannol Aberaeron, yn enwedig trwy'r iaith Gymraeg a'r dreftadaeth bensaernïol. Mae'r cynlluniau'n cynnwys sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyd-fynd â chymeriad hanesyddol y dref, gwella arlwy diwylliannol y dref, a datblygu strategaeth i ailddefnyddio adeiladau hanesyddol gwag cyfredol.

Yr Economi:

Mae Aberaeron, sy'n meddu ar opsiynau llety amrywiol, yn parhau i fod yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid. Er mwyn cynnal canol tref fywiog, mae angen strategaeth dwristiaeth gydlynol i gydbwyso gwasanaethau ac addasu i dueddiadau teithio modern. Mae'r cynigion yn cynnwys byrddau rhyngweithiol dwyieithog a llwybr tref rhithwir i hyrwyddo hanes lleol a chefnogi busnesau llai. Mae'r angen i hwyluso mannau parcio ar gyfer teithiau coetsys i'r dref yn parhau i fod yn her.

Yr Amgylchedd:

Rhoddir blaenoriaeth i gadwraeth amgylcheddol a chynaliadwyedd, lle bo yna ffocws ar ynni adnewyddadwy, gwella amddiffynfeydd arfordirol, a mabwysiadu model economi gylchol. Mae'r gymuned yn cefnogi polisïau sy'n ymwybodol o'r hinsawdd, ac mae'n ceisio gweithredu prosiectau sy'n lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, gan wella'r dirwedd naturiol ar yr un pryd.



Swyddfeydd y Cyngor Penmorfa

DRAFT

DRAFT



# Llesiant

DRAFT

### 4.2.1 Trosolwg

Rhaid achub ar bob cyfle i sicrhau bod preswylwyr lleol ac ymwelwyr yn gallu byw bywydau egnïol ac iach. Mae Aberaeron yn darparu llu o gyfleoedd i unigolion gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau. Rhaid gwneud ymdrech i gynnal a gwella'r cyfleusterau a'r cyfleoedd presennol. Mae iechyd y genedl bellach yn cael ei gwmpasu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, felly mae'n hanfodol ein bod yn edrych tua'r dyfodol ac yn darparu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol hwnnw.

Roedd y pwyntiau cyffredinol a awgrymwyd gan y gymuned mewn perthynas â llesiant yn cynnwys yr angen am gyfleusterau chwaraeon, sicrhau bod y pwll nofio yn cael ei gynnal a'i gadw, hyrwyddo llwybrau troed lleol a cherdded, a gwella cyfleusterau'r harbwr i gynnwys chwaraeon dŵr.

### 4.2.2 Iechyd a Llesiant

Datblygu perllan gymunedol trwy'r Prosiect Perllannau.

Blaenoriaethu symudiad cerddwyr a theithio llesol, ad-drefnu'r meysydd parcio bysiau, coetsys a cheir, ynghyd ag archwilio'r cyfle i ddarparu rhagor o fannau gwefru cerbydau trydan lle bo hynny'n briodol.

Mae atebion posibl ar gyfer parcio ceir a lleihau allyriadau niweidiol a achosir gan dagfeydd yn cynnwys integreiddio mannau gwefru cerbydau trydan mewn meysydd parcio cyfredol, a hynny ochr yn ochr ag ardal newydd ddynodedig bwrpasol i fysiau/coetsys ollwng pobl/barcio.

### 4.2.3 Chwaraeon


Byddai cae astroturf gyda llifoleuadau yn cynyddu'r gallu i ddarparu gweithgareddau yn ystod misoedd y gaeaf. Gallai hwn gael ei leoli ar dir ger yr ysgol gyfun sy'n eiddo i'r/a reolir gan yr Awdurdod Lleol. Mae Chwaraeon Cymru yn ffynhonnell ariannu bosibl.

### 4.2.4 Hygyrchedd

Dylid gwella Llwybr yr Arfordir ar ochr ddeheuol Aberaeron. Yn dibynnu ar sefydlogrwydd y tir, draeniad a pherchnogaeth, gellid gwneud Llwybr yr Arfordir o Aberaeron i Aber-arth yn un mynediad hawdd, gan greu cylchdaith yn ôl i Aberaeron ar hyd palmant yr A487.

### 4.2.5 Hamdden

Mae Cae Sgwâr yn un o'r safleoedd hamdden mwyaf eu defnydd yn y dref ac, o'r herwydd, mae ei gadw yn hanfodol i hanes, diwylliant, cynaliadwyedd, ac iechyd a llesiant y dref. Tynnir sylw at faes chwarae hamdden hygyrch Parc-y-Fro ger Clwb Chwaraeon Aberaeron fel safle pwysig ymhlith cyfleusterau hamdden a chwarae'r dref.




Blaenoriaethau llesiant Aberaeron

**4.2.6 Camau Gweithredu**

- Parhau i ddatblygu caeau astroturf a chyfleusterau pob tywydd ar gyfer amrywiaeth o gymdeithasau chwaraeon lleol, a hynny ar dir sy'n eiddo i'r/a reolir gan yr Awdurdod Lleol.
- Yn y tair blynedd nesaf, gwella hygyrchedd ar hyd llwybr yr arfordir ar gyfer y rhai y mae eu symudedd yn gyfyngedig neu y mae ganddynt anghenion hygyrchedd eraill.
- Gwella'r cysylltiadau arfordirol, y llwybrau cylchol, llwybrau'r afon a'r llwybrau beicio.
- Estyn llwybr beicio Llannerch Aeron i Lanbedr Pont Steffan.
- I gynorthwyo mesurau pedestreiddio, parhau i ddefnyddio cynwysyddion planhigion yn rhwystrau ar y stryd. Gall y rhain hefyd fod yn erddi perlysiau cymunedol deniadol.
- Hyrwyddo canol tref heb annibendod a darparu mynediad hawdd i gerddwyr.
- Darparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu chwaraeon dŵr, gan gynnwys lleoedd storio ar gyfer caiacau a phadlfyrddau.
- Hyrwyddo llwybrau diogel i'r ysgol sy'n cysylltu Rhiwgoch ag Aberaeron.
- Parhau i gynnal a gwella'r cyfleusterau hamdden a'r meysydd chwarae.
- Lledu'r llwybrau troed ar Faes Chwarae Ffordd y Gaer i hyrwyddo cysylltedd a diogelwch cerddwyr.
- Datblygu cyfleoedd i ddysgu hwylio dingis yn Aberaeron.
- Gwella'r cyfleusterau newid ar y cae criced/pêl-droed a datblygu clwb.

**4.2.7 Polisïau Llesiant a Chysylltiadau**

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| we-01 | Ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf 1 a 2 Polisi LU22 y CDLl, cefnogir cynigion i wella a chynyddu'r ddarpariaeth, lle bo galw, ar gyfer cyfleusterau chwaraeon, hamdden ac adloniant effeithiol ac amlddefnydd. | LIC TAN16: Chwaraeon, Hamdden, a Pholisi LU22 y CDLl: Darpariaeth Gymunedol. |
| we-02 | Cefnogir cynigion ar gyfer llwybrau cerdded a beicio newydd neu welliannau i rwydweithiau presennol (gan gynnwys arwyddion priodol). Rhaid i bob datblygiad newydd ystyried cyflwyno seilwaith teithio llesol newydd neu ehangiad sy'n gymesur â'r anghenion sy'n codi o'r datblygiad. | Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 Polisi 12: Cysylltedd Rhanbarthol, a Pholisi DM04 y CDLl: Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol Polisi DM05 y CDLl: Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio. |



Harbwr Aberaeron

Sicrhau bod preswylwyr lleol ac ymwelwyr yn gallu byw bywydau egnïol ac iach.

DRAFT

DRAFT



# Creu Lleoedd

#### 4.3.1 Trosolwg

Mae Aberaeron yn elwa o gydbwysedd gwych rhwng mannau gwyrdd ac adeiladau. Mae'n hanfodol cadw ei threftadaeth bensaernïol wrth fynd i'r afael ag anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen i unrhyw ddatblygiadau yn y naill ardal a'r llall gadw a gwella cymeriad y dref.

Mae'n hanfodol bod gwasanaethau sylfaenol megis glanhau'r strydoedd yn cael eu cadw a'u gwella. Mae'r canfyddiad o'r dref, ei glendid a'i naws yn hanfodol i gadw'r lle yn un arbennig i ymweld ag ef.

Mae materion sy'n gysylltiedig â phroblemau traffig yn y dref yn cynnig cyfleoedd i archwilio dulliau teithio amgen, megis teithio llesol. Byddai hyn yn lleihau nifer y teithiau byr gan gerbydau ac yn darparu cyfleoedd i wella iechyd.

Mae'r problemau parcio hefyd yn cael effaith andwyol ar dwristiaeth gan nad oes lleoliad addas yn y dref i goetsys ollwng ymwelwyr.

Nid yw'r lleoedd parcio oddi ar strydoedd y dref yn ddigonol. Ar hyn o bryd, mae'r meysydd parcio talu ac arddangos ar Draeth y De, Traeth y Gogledd a Ffordd y Gaer, ond yn ystod adegau prysur nid oes digon o le i ddiwallu anghenion y dref, sy'n golygu bod traffig trwm yn cronni yn y strydoedd a phobl yn parcio'n anghyfreithlon ar linellau melyn dwbl neu mewn mannau peryglus. Mae angen adolygu lleoliadau yn y dref y gellid newid eu defnydd a'u troi'n feysydd parcio.

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- "Hyrwyddo Aberaeron fel tref heb annibendod."
- "Gwella'r amgylchedd naturiol er budd preswylwyr lleol."
- "Darparu mannau gwefru ar gyfer ceir trydan."

#### 4.3.2 Mannau Gwyrdd gan gynnwys Meysydd Pentref


Cadw a datblygu cydbwysedd y dref o ran mannau gwyrdd. Mae cynllun Seilwaith Gwyrdd a Glas Aberaeron yn rhoi pwyslais ar leihad sylweddol yn y gorchudd coed, a chollwyd 1,000 o goed rhwng 2006 a 2013. Mae gan y Cyngor Tref strategaeth plannu a rheoli coed ar waith ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r broblem hon.

#### 4.3.3 Rheoli Traffig

Mae'r gwasanaeth bysiau yn Aberaeron yn dda gan fod yna lwybrau a bysiau rheolaidd o'r Gogledd i'r De ac o'r Dwyrain i'r Gorllewin. Fodd bynnag, dylai'r materion canlynol gael eu hystyried mewn unrhyw gynllun rheoli traffig yn y dyfodol: mae yna angen difrifol i adolygu'r llif traffig yng nghanol y dref; byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch cerddwyr. Mae angen ad-drefnu'r lleoedd parcio ar gyfer bysiau, coetsys a cheir, gan hefyd archwilio'r cyfle i ddarparu mannau gwefru cerbydau trydan. Mae'r problemau parcio yn cael effaith andwyol ar dwristiaeth gan nad oes yna leoliad addas i goetsys ollwng ymwelwyr yn y dref. Ar hyn o bryd, mae gan y dref dri maes parcio 'talu ac arddangos', a hynny ar Ffordd y Gaer, Traeth y Gogledd a Thraeth y De.

Ers cyflwyno'r system unffordd, mae ymwelwyr sy'n parcio ym maes parcio Traeth y Gogledd bellach yn defnyddio Ffordd y Gaer fel y porth i'r dref. Mae llwybr troed lletach yn ofynnol ochr yn ochr â chae chwarae'r ysgol yn Ffordd y Gaer Isaf. Mae gofyn lledu'r rhan uchaf hefyd, ond byddai hyn yn effeithio ar y traffig dwyffordd cyfredol. Mae'r cynnydd yn nifer y cerbydau gwersylla a chartrefi symudol sy'n aros dros nos ar y strydoedd hefyd wedi achosi pwysau sylweddol yn y dref.

Gallai cyflwyno system unffordd ym Mhen Cei wella diogelwch ar y ffyrdd a galluogi'r rhai sydd â phroblemau symudedd i gael mynediad i Ben Cei a'i gyfleusterau.




Blaenoriaethau creu lleoedd Aberaeron

DRAFT

DRAFT

### 4.3.4 Cyfleoedd Datblygu

Mae datblygiad mewn perthynas â lleoedd bob amser yn dibynnu ar ardaloedd daearyddol, yn enwedig mewn perthynas â defnydd tir. Mae tirwedd Aberaeron yn gymharol fach a chyfyngedig yn ffisegol. Gan fod y dref yn cael ei chyfyngu gan y llethrau serth cyfagos, mae yna brinder tir addas i ddatblygu arno ar gyfer y dyfodol.

Rhaid i ddatblygiadau ar draws canol y dref anelu at sicrhau cydbwysedd rhwng cadw'r hen a datblygu'r newydd.

Mae'r gymuned wedi mynegi'r angen am dai, ac yn benodol tai fforddiadwy. Oherwydd prinder tir ar gyfer datblygu, byddai angen i gyfleoedd o'r fath ar gyfer darparu tai fod o fewn yr amgylchedd adeiledig cyfredol. Felly, mae atebion creadigol a chydgysylltiedig yn ofynnol.

Prin iawn yw'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad diwydiannol ysgafn. O ran manwerthu, ychydig iawn o siopau gwag a geir yn Aberaeron, sy'n galonogol. Mae'r ardal siopa yn gymharol fach, a phan ddaw unedau manwerthu ar gael, cânt eu llenwi'n gyflym. Mae'r siopau mwy yn anoddach eu llenwi pan ddônt ar gael oherwydd yr ardrethi busnes uchel. Mae'n bwysig bod Aberaeron yn parhau i fod yn ddeniadol i fusnesau sy'n dymuno eu sefydlu eu hunain yn y dref. Mae Aberaeron wedi ffynnu o ganlyniad i fod â siopau bach annibynnol sy'n darparu cynnig unigryw i'r siopwr.

### 4.3.5 Gwelliannau i'r Stryd Fawr

Er ei bod yn dref fach heb nifer enfawr o siopau, mae Aberaeron yn ganolfan siopa allweddol ar gyfer y gymuned ehangach a rhannau eraill o Orllewin Cymru. Mae yna amrywiaeth o siopau a lleoedd bwyta yn y dref, gyda'r ystod yn cynnwys siopau gwerth da am arian a siopau a ddisgrifir heddiw yn rhai 'pen ucha'r farchnad'. Byddai o fudd mawr yn y dyfodol i wella a datblygu'r ddarpariaeth hon lle bynnag y bo modd, a hynny'n unol â safon bensaernïol y dref.

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- "Mae cynnal canol y dref fel canolfan siopa fywiog yn hanfodol wrth symud ymlaen."

### 4.3.6 Camau Gweithredu

- Gallai ateb i eiddo gwag gynnwys sefydlu canolfannau gwaith ar gyfer gweithwyr cartref y sector preifat a chyhoeddus i roi mynediad iddynt i: ystafelloedd cyfarfod, cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd, man arddangos parhaol ar gyfer Cymdeithas Aberaeron, cyfleusterau cynadledda, gwesty a lleoliad priodas, neu hybiau cymunedol. Mae dull cyfannol yn hanfodol, ynghyd â'r potensial i weithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i nodi cyfleoedd a chysoni blaenoriaethau.
- Sicrhau cydymffurfedd â chanllawiau dylunio perthnasol ar gyfer ffryntiadau siopau yng nghanol y dref.
- Cynyddu hygyrchedd i wybodaeth am atyniadau a busnesau lleol, a helpu i hyrwyddo Aberaeron fel canolfan fanwerthu a chyrchfan i dwristiaid.
- Hyrwyddo mynediad, parcio a gofodau hamdden trwy wella llwybr yr arfordir, datblygu ardal hamdden, ac ymgorffori gwaith celf a golygfannau.
- Gwneud parcio yn Aberaeron yn rhad ac am ddim ar adegau tawel i leihau parcio ar y stryd, a defnyddio'r arian a godir trwy daliadau parcio i sybsideiddio'r "bws gwennol".
- Gwella'r ddarpariaeth parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd yn y dref/ddarpariaeth anabl/ rheolaeth ar draffig.
- Darparu lleoliad i fod yn fan gollwng a chodi i goetsys.
- Defnyddio cynwysyddion planhigion yn rhwystrau ar y stryd i gynorthwyo mesurau pedestreiddio, yn ogystal ag i fod yn erddi perlysiau cymunedol deniadol.
- Mae Cae Sgwâr yn un o'r safleoedd hamdden mwyaf eu defnydd yn y dref ac, o'r herwydd, mae ei gadw a'i ddatblygu yn hanfodol i hanes, diwylliant, cynaliadwyedd, ac iechyd a llesiant y dref.
- Cynnal canol y dref fel canolfan siopa fywiog.
- Canolbwyntio ar welliannau i'r harbwr.
- Ymrwymo i bolisi canol trefi yn gyntaf, fel y nodir yn natganiad sefyllfa Llywodraeth Cymru ar adfywio canol trefi a mynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu.
- Hyrwyddo Heol y Farchnad trwy wella'r palmant, y celfi stryd, a ffurfwedd y priffyrdd a'r dull o drin eu hwynebau.
- Parhau i ddilyn strategaeth plannu a rheoli coed y Cyngor Tref.

### 4.3.7 Polisïau Creu Lleoedd a Chysylltiadau

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| pl-01 | Bydd cynigion sy'n cynnal ac yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd Canol y Dref yn cael cefnogaeth gref. | Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040: Polisi 6: Canol Trefi yn Gyntaf<br>Polisi DM06 y CDLl: Dylunio a Chreu Lleoedd o Ansawdd Uchel<br>Polisi LU18 y CDLl: Cynigion Manwerthu Ledled y Sir<br>Polisi LU19 y CDLl: Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol. |
| pl-02 | Cefnogir cynigion sy'n darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan. | Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 Polisi 11: Cysylltedd Cenedlaethol; a, Pholisi 12: Cysylltedd Rhanbarthol. |

Rhaid i ddatblygiadau ar draws canol y dref anelu at sicrhau cydbwysedd rhwng cadw'r hen a datblygu'r newydd.



# Treftadaeth a Diwylliant

DRAFT

#### 4.4.1 Trosolwg

Mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn rhan allweddol o hunaniaeth Aberaeron, a rhaid parhau i ymdrechu i hybu'r defnydd ohoni yn y gymuned. Mae gwarchod treftadaeth bensaernïol y dref yr un mor bwysig gan ei fod yn sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn parchu ei chymeriad unigryw a'i chefndir diwylliannol. Mae cadw asedau hanesyddol, lawer ohonynt yn cael eu tanddefnyddio, yn hanfodol ar gyfer diogelu cymeriad y dref.

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- "Byddai mwy o wersi Cymraeg yn dda."
- "Parchu a diogelu enwau hanesyddol adeiladau a lleoedd."
- "Parchu dyluniad datblygiadau yng nghyd-destun amgylchedd Adeilad Rhestredig."
- "Gwneud mwy o ymdrech i ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr am hanes y dref, megis llwybr y dref."

#### 4.4.2 Y Gymraeg

Mae'r Gymraeg naill ai'n iaith gyntaf neu'n ail iaith i lawer o bobl y dref a'r ardal leol. Rhaid gwneud pob ymdrech i gadw a gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

#### 4.4.3 Treftadaeth Bensaernïol

Mae Aberaeron yn ymfalchïo yn ei chymeriad unigryw a'i chefndir hanesyddol a diwylliannol. Fel y cyfryw, rhaid i bob datblygiad yn y dyfodol geisio cadw a hyrwyddo hyn. Mae gwneuthuriad y dref yn hanfodol i gadw treftadaeth ddiwylliannol Aberaeron, ac felly mae'n rhaid i bob datblygiad gyd-fynd â'i nodweddion pensaernïol.

#### 4.4.4 Asedau Hanesyddol a Diwylliant

Mae llawer o ardaloedd hanesyddol y dref yn wynebu dirywiad economaidd, gan olygu nad yw adeiladau'n cael eu defnyddio ddigon a bod buddsoddiad yn isel. Gall gwaith adfywio targededig ddatgloi potensial, adfywio mannau sydd wedi'u hesgeuluso, a rhoi pwrpas newydd i asedau hanesyddol. Mae ar Aberaeron angen amgueddfa a chanolfan gelfyddydol i arddangos y dalent leol, a gellid gwneud hynny o bosibl trwy ailddatblygu Neuadd y Sir. Mae gofyn i'r dref ddatblygu strategaeth ar gyfer ailddefnyddio adeiladau hanesyddol gwag.

#### 4.4.5 Cymdeithas Aberaeron

Mae gan Gymdeithas Aberaeron, cymdeithas dreftadaeth gymunedol, ran fawr i'w chwarae o ran diogelu'r cyd-destun hanesyddol.

#### 4.4.6 Camau Gweithredu

- Cyflwyno mwy o finiau ailgylchu a pholisi "diblastig" yn yr ardal gadwraeth.
- Rhaid i bob datblygiad yn y dref barchu treftadaeth bensaernïol y dref, ac efallai y dylid estyn yr ardal gadwraeth yng nghanol y dref.
- Llunio canllawiau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer prosiectau newydd yn yr ardal gadwraeth neu gerllaw iddi.
- Parchu'r cynllun datblygu yng nghyd-destun amgylchedd Adeilad Rhestredig, fel yr amlinellir yng Nghynllun Arfarnu a Rheoli Ardal Gadwraeth Aberaeron.
- Diogelu tirnodau'r dref, gan gynnwys gwarchod enwau hanesyddol anheddau.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
- Archwilio dichonoldeb trawsnewid Neuadd y Sir i fod yn ganolbwynt cymunedol bywiog, canolbwynt a fydd yn ymgorffori amgueddfa/oriel/mannau ar gyfer gweithgareddau lleol.
- Datblygu strategaeth i ailddefnyddio adeiladau hanesyddol gwag cyfredol, strategaeth sy'n cynnwys ymgysylltu â'r gymuned a chynllunio ar gyfer ailddefnyddio adeiladau hanesyddol sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus.
- Darparu cymorth i ddatblygu gwaith Cymdeithas Aberaeron, gan gynnwys ei harddangosfeydd yn Neuadd y Sir.

#### 4.4.7 Polisïau Treftadaeth a Diwylliant a Chysylltiadau

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| hc-01 | Bydd datblygiadau sy'n hwyluso ailddefnydd priodol o adeiladau treftadaeth gwag neu adeiladau nad ydynt yn cael defnydd digonol yn cael cefnogaeth lle bônt yn cael eu cynllunio i warchod, cadw a gwella cymeriad yr adeilad. | LLC TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol<br>Polisi DM19 y CDLl: Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol. |
| hc-02 | Cefnogir cynigion sy'n cyfrannu at y defnydd o'r Gymraeg ac sy'n cefnogi'r nod llesiant ynghylch y Gymraeg yn Ffynnu. | Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 Canlyniad 4: Cymru lle mae pobl yn byw mewn mannau lle bo'r Gymraeg yn ffynnu.<br>Strategaeth Hybu'r Gymraeg Ceredigion 2024-2029. |

Mae gwneuthuriad y dref yn hanfodol i gadw treftadaeth ddiwylliannol Aberaeron.



Palet deunyddiau Aberaeron

DRAFT




# Yr Economi

DRAFT

### 4.5.1 Trosolwg

Mae twristiaeth yn agwedd allweddol ar economi Aberaeron, ond mae yna angen cynyddol am well gwaith cydgysylltu i ddatblygu gwasanaethau twristiaeth ac addasu i ddisgwyliadau ymwelwyr modern.

Mae Aberaeron yn gysylltiedig â phedwar Anheddiad Cyswllt, rai ohonynt wedi'u lleoli ychydig bellter i'r mewndir. Y mwyaf o'r Aneddiadau Cyswllt yw Ffos-y-ffin (tua 3 km o Aberaeron). Er gwaethaf manteision agosrwydd Ffos-y-ffin at Aberaeron, dewiswyd Llwyncelyn (4.1 km o'r Ganolfan Gwasanaethau) (fel ateb dros dro) i ymdopi â pheth o'r diffyg cyfredol o ran cyfleoedd i fodloni'r twf a bennwyd ar gyfer Aberaeron. Bydd hyn yn destun adolygiad gan fod y sefyllfa wedi newid o ganlyniad i ddatblygu siop cyfleustra ac agor tafarn bentref yn Ffos-y-ffin yn ddiweddar, ynghyd â sefydlu llwybrau diogel i'r ysgol.

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- "Mae angen gwell cyfleusterau parcio."
- "Byddai Siambr Fasnach yn fuddiol."
- "Mae yna lawer o ddigwyddiadau i dwristiaid."

### 4.5.2 Twristiaeth

Mae Aberaeron yn gyrchfan o bwys ar gyfer twristiaid, ac nid ymwelwyr untro neu arhosiad byr yw llawer ohonynt gan fod ganddynt garafán yn y dref neu'n agos ati, ac maent yn ymweld bron bob penwythnos ac am wyliau hirach. Er mwyn gwella profiad ymwelwyr yn Aberaeron, mae angen adfer y ganolfan groeso. Bydd yn ganolbwynt ar gyfer gwybodaeth i dwristiaid, yn hyrwyddo atyniadau lleol, ac yn cefnogi busnesau lleol, gan wella'r profiad cyffredinol i dwristiaid a thwf economaidd.

Yn ogystal â'r tirnodau a'r atyniadau a grybwyllwyd eisoes, mae yna amrywiaeth eang o lety twristiaid yn Aberaeron. Maent yn amrywio o feysydd carafanau a meysydd gwersylla i westai bwtîc a bythynnod gwyliau. Gwneir defnydd da ohonynt i gyd ac mae nifer yr ymwelwyr yn uchel; fodd bynnag, mae yna ddirywiad yn y sector gwely a brecwast ar hyn o bryd, ac mae busnesau ar werth. Mae'r gwesty mwyaf yn y dref, Gwesty'r Plu, wedi ailagor, ac mae hyn wedi cael effaith ar nifer y gwelyau sydd ar gael. Mae'r gwesty wedi bod yn lleoliad pwysig ar gyfer digwyddiadau, ac mae hyn hefyd yn cael effaith ar fusnesau.


Ymddengys ar hyn o bryd fod agwedd fwy cydlynol at ddatblygu twristiaeth yn angenrheidiol i gadw cydbwysedd o ran y ddarpariaeth a gwella gwasanaethau. Er bod y ffordd y mae pobl yn trefnu ac yn cynllunio eu gwyliau yn newid, mae'r cynnydd mewn archebion ar-lein yn golygu bod gwasanaethau gwybodaeth i dwristiaid yn ofynnol o hyd.

Byddai rhoi mapiau a byrddau gwybodaeth electronig rhyngweithiol a dwyieithog ar waith i ddarparu gwybodaeth ddiwylliannol a hanesyddol leol yn helpu i hyrwyddo hanes, diwylliant ac iaith y dref.

Mae'r Cyngor Tref eisoes wedi cytuno i gymryd rhan yng Nghynllun Digidol ehangach y Cyngor Sir i gryfhau cysylltedd digidol Aberaeron a phresenoldeb y dref ar-lein. Bydd ap tref newydd, Wi-Fi am ddim a llwyfannau cyfredol eraill yn gwella mynediad i atyniadau a busnesau lleol, gan hyrwyddo Aberaeron fel canolfan fanwerthu a chyrchfan i dwristiaid.

### 4.5.3 Busnes Lleol

Gallai byrddau gwybodaeth ymgorffori'r llwybr tref rhithwir hanesyddol a ddatblygwyd gan Gymdeithas Aberaeron. Gellid ei addasu i gynnwys arosiadau mewn siopau lleol a thafarndai. Byddai hyn yn cynyddu gwasgariad pobl o amgylch y dref, gan fod o fudd i fusnesau llai nad ydynt wedi'u lleoli yn y brif ardal siopa.




Blaenoriaethau economaidd Aberaeron

### 4.5.4 Camau Gweithredu

- Gallai byrddau gwybodaeth electronig ymgorffori'r llwybr tref rhithwir hanesyddol a ddatblygwyd gan Gymdeithas Aberaeron.
- Gwneud parcio yn Aberaeron yn rhad ac am ddim yn ystod adegau tawel (fel bod llai o gerbydau'n parcio ar y stryd).
- Archwilio cyfleoedd i ailddefnyddio unedau diwydiannol ysgafn ar gyfer busnesau lleol.
- Parhau i wella'r cysylltedd digidol a phresenoldeb ar-lein.
- Gwella profiad ymwelwyr trwy adfer y Ganolfan Groeso.
- Gweithio gyda phartneriaid yng nghyd-destun Strategaeth Economaidd Ceredigion i nodi cyfleoedd cyflogaeth lleol a sectorau sy'n dod i'r amlwg. Archwilio cyfleoedd i ailddefnyddio a meddiannu adeiladau tirnod gwag megis Neuadd y Sir, a'r potensial adfywio cysylltiedig.

### 4.5.5 Polisïau'r Economi a Chysylltiadau

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| ec-01 | Bydd cynigion sy'n cynnal ac yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd Canol y Dref yn cael cefnogaeth gref. | Polisi DM06 y CDLl: Dylunio a Chreu Lleoedd o Ansawdd Uchel, a, Pholisi LU13 y CDLl: Newid Defnydd mewn Perthynas â Thir neu Adeiladau Cyflogaeth Presennol Polisi LU21 y CDLl: Newid Defnydd o Ddefnydd Manwerthu Presennol. |
| ec-02 | Bydd cynigion datblygu sy'n annog twristiaeth a chyfleoedd cyflogaeth lleol yn cael eu cefnogi ar yr amod eu bod yn rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio safleoedd tir llwyd, neu i addasu adeiladau mewn bod. | Polisi LU18 y CDLl: Cynigion Manwerthu Ledled y Sir Polisi LU19 y CDLl: Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol Polisi LU17 y CDLl: Cyfleusterau/Atyniadau Twristiaeth (heblaw am lety). |



Gwesty'r Plu




DRAFT

### 4.6.1 Trosolwg

Mae effaith y newid yn yr hinsawdd ar ein byd, a'r ymdrechion i unioni'r sefyllfa, yn uchel ar y mwyafrif o agendâu ar hyn o bryd. Mae'n bwysig felly bod pob datblygiad yn Aberaeron a'r gymuned ehangach yn ymrwymo i sicrhau llai o effaith neu effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Mae llawer o ymdrechion eisoes wedi cael eu gwneud o gwmpas y dref i leihau effaith unigolion a sefydliadau ar y dirwedd naturiol, ymdrechion sy'n cynnwys lleihau plastigion untro.

Mae'n amlwg o'r digwyddiadau ymgynghori fod yr holl breswylwyr yn ystyried y newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth, ac felly mae angen dull cydlynol a rheoledig.

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- "Darparu mannau gwefru ar gyfer ceir trydan."
- "Anelu at fod yn dref carbon bositif a diblastig."
- "Gweithio gyda CADW a'r Awdurdod Cynllunio Lleol i sicrhau na chaiff paneli solar eu gwahardd ar adeiladau rhestredig."
- "Archwilio cyfleoedd ar gyfer ynni lleol gwyrddach o'r afon a'r môr."

### 4.6.2 Amgylchedd Morol

Mae ACA Bae Ceredigion yn ardal arfordirol warchodedig a gydnabyddir am ei bioamrywiaeth forol ac arfordirol bwysig, gan gynnwys sawl rhywogaeth o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Mae dynodiad y safle yn helpu i ddiogelu cynefinoedd allweddol, megis y clogwyni morol sy'n cynnal poblogaethau adar môr prin a rhywogaethau planhigion unigryw. Mae diogelu treftadaeth forwrol y dref mewn modd effeithiol yn gofyn am reolaeth ofalus i warchod yr ardal, a phroses o gydbwyso cadwraeth ecolegol â phwysau dynol ac amgylcheddol posibl.

### 4.6.3 Cynaliadwyedd

Mae tref Aberaeron wedi'i lleoli wrth geg Afon Aeron ac ar hyd Arfordir Treftadaeth dynodedig Bae Ceredigion. Caiff ei hamgylchynu â llethrau serth a chlogwyni. I'r gogledd o Aberaeron, mae'r dirwedd yn troi'n wastadedd arfordirol cul. Mae lleoliad arfordirol Aberaeron hefyd yn golygu bod yr economi ymwelwyr yn chwarae rôl bwysig yn y dref, a'i bod at hynny yn gartref i ardaloedd o ddiddordeb ecolegol pwysig. O ystyried ei lleoliad ysblennydd, mae amgylchedd naturiol Ceredigion wrth galon hunaniaeth tref Aberaeron. Mae cyfleoedd a syniadau ar gyfer Aberaeron yn cael eu harchwilio ymhellach yn y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas.

### 4.6.4 Camau Gweithredu

- Datblygu'r ardal werdd wyllt i'r de o'r bont bren yn ardal yr harbwr i fod yn warchodfa adar môr.
- Dylid cynnal pob safle gwyrdd i safon uchel a diogel, a dylid gwneud gwelliannau lle bynnag y bo modd, er budd y preswylwyr a'r twristiaid.
- Ar y cyd â phartneriaid allweddol, archwilio cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy cymunedol.
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer gosod ynni gwyrdd.
- Gweithio tuag at wella effeithlonrwydd ynni hen adeiladau.
- Cefnogi gwaith parhaus i amddiffyn rhag llifogydd a chynnal amddiffynfeydd morol Traeth y Gogledd.
- Mynd i'r afael â pherygl llifogydd mewn ardaloedd trefol trwy integreiddio systemau draenio cynaliadwy (SDCau), systemau sy'n arafu llif y dŵr ac yn lleihau effaith dŵr ffo arwyneb.

### 4.6.5 Polisïau'r Amgylchedd a Chysylltiadau

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| en-01 | Cefnogir datblygiadau sy'n cynnwys mesurau i gyflawni allyriadau carbon isel trwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy a thechnoleg carbon isel. | Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040: Polisi 17: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig<br>Polisi LU25 y CDLI: Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy. |
| en-02 | Cefnogir cynigion sy'n cynnwys SDCau. | Polisi DM13 y CDLI: Systemau Draenio Cynaliadwy<br>LLC TAN 12: Dylunio a Chanllawiau Statudol ar Ddraenio Cynaliadwy (SDCau). |

DRAFT



Aberaeron's coastal connection

DRAFT

DRAFT

Allwedd:

Safleoedd a nodir yn y Cynllun Bro

— Ffin yr anheddiad

— Ffin y safle

1. Heol y Farchnad
   Buddsoddi a Gwella

2. Neuadd y Sir
   Tirnod hanesyddol

3. Canolfan Iechyd Meddygon Teulu a Gorsaf Ambiwlans
   Darpariaeth gofal iechyd

4. Y Ganolfan Hamdden
   Iechyd/hamdden

5. Y Pwll Nofio
   Iechyd/hamdden

6. Yr Ysgol Gynradd
   Addysg

7. Yr Ysgol Uwchradd
   Addysg

8. Yr Harbwr
   Cynnal a chadw/hunaniaeth arwyddocaol

9. Cae Sgwâr
   Hamdden/adloniant/man gwyrdd

10. Y Neuadd Goffa
    Ased hanesyddol a defnydd cymunedol

11. Parcio Ceir
    Cynllun rheoli traffig ar gyfer parcio ar adegau prysur

12. Traeth y De
    Gwell mynediad yn dilyn y gwaith ar yr amddiffynfeydd morol

13. Traeth y Gogledd
    Hamdden/adloniant gyda mwy o wyrddni ar y promenâd


14. Canolfan Aeron
    Addysg

15. Penmorfa
    Swyddfeydd yr Awdurdod Lleol

Safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol

Dyraniadau Tai

A. Cae Rhiwgoch, Aberaeron - H0101






DRAFT

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Llywodraeth Cymru Welsh Government